Owen Thomas, 1812–91
Gweinidog (MC), pregethwr ac awdur

Ganed Owen Thomas yng Nghaergybi ar 16 Rhagfyr 1812, yr hynaf o wyth o blant Owen a Mary Thomas. Yr oedd ei dad yn saer maen. Aeth i ysgol Mrs Morton lle dysgodd ddarllen, yna i ysgol eglwys yn y dref am gyfnod, ysgol Owen Antony, hen gapten llong, ac yna ysgol Owen Roberts. Oherwydd diffyg gwaith symudodd y teulu i Fangor ym 1827 lle y cafodd ei dad waith yng nghastell Penrhyn. Bu farw ei dad ym 1831 pan oedd y plentyn ieuengaf yn 11 mis oed, a chymerodd Owen Thomas ei le yn y gwaith yng nghastell Penrhyn. Yr oedd y teulu'n aelodau yn eglwys y Methodistiaid yn y dref, sef y Tabernacl, a derbyniwyd Owen yn aelod o'r cyfarfod misol yn y Graig ym 1834 a dechreuodd bregethu. Yn fuan enillodd enw iddo'i hun fel pregethwr dawnus a grymus. Yn y cyfnod hwn bu hefyd yn weithgar gyda'r mudiad dirwestol gan gynorthwyo i sefydlu Cymdeithas Ddirwestol Bangor ym 1836.

Aeth i Goleg y Bala ym 1838 lle y treuliodd dair blynedd, ac oddi yno aeth i Brifysgol Caeredin lle y bu am ddwy flynedd arall. Ar ei ddychweliad i Gymru ym 1843 derbyniodd alwad o Bwllheli i ofalu am eglwys Penmount a chafodd ei ordeinio i'r gwaith yng Nghymdeithasfa Bangor yn yr un flwyddyn. Byr fu ei arhosiad yno oherwydd o fewn llai na thair blynedd derbyniodd alwad i fugeilio eglwys Saesneg yn y Drenewydd ar gyflog o £60 y flwyddyn. O'r fan honno derbyniodd alwad ym 1851 i fod yn weinidog eglwys enwog Jewin Crescent yn Llundain. Cyrhaeddodd yno yn dilyn cyfnod cythryblus yn hanes yr eglwys lle y bu drwgdeimlad, ond yn raddol cyfannwyd y rhwygiadau o dan ei arweiniad.

Trwy gydol y blynyddoedd fe deithiodd yn ddiflino trwy Gymru a Lloegr gan bregethu'n rymus. Cydnabyddid ef fel un o bregethwyr mwyaf ei genhedlaeth ac fe saernïai ei bregethau'n grefftus gan eu traddodi'n gelfydd. Ym 1860 priododd ag Ellen, merch ieuengaf y Parch. William Roberts, Amlwch. Daeth y mudo

nesaf i Netherfield Road, Lerpwl, ym 1865, ond ddwy flynedd yn ddiweddarach bu farw ei briod yn annhymig gan adael pump o blant, yr hynaf yn bump oed a'r ieuengaf yn ddeng niwrnod. Yna ym 1871 aeth yn weinidog ar eglwys Princess Road yn yr un ddinas. Fe ddaliodd uchel swyddi'r enwad; bu'n llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd ym 1863 a 1882, ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol ym 1868 a 1888.

Ysgrifennodd yn helaeth dros y blynyddoedd. Cyfrannodd erthyglau swmpus i'r *Traethodydd* ar faterion fel olyniaeth Apostolaidd, William Gurnal a marwolaeth enwogion, ac am gyfnod bu'n gyd-olygydd y cyfnodolyn hwnnw gyda'r Parch. Roger Edwards. Gwelir enghreifftiau o'i waith hefyd yn *Y Geiniogwerth*, *Y Traethodydd* a'r *Gwyddoniadur*. Ysgrifennodd gofiant i Henry Rees ac i John Jones, Tal-y-sarn, ac fe ystyrir hwn bellach yn un o glasuron y 19eg ganrif. Cyhoeddodd hefyd esboniad ar y Testament Newydd gan gynnwys cyfieithiad o esboniad Dr Kitto. Bu farw ddydd Sul, 2 Awst 1891, yn ei gartref yn Catherine Street, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Anfield, Lerpwl.